**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 20 Mai 2015

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant

**Awdur yr Adroddiad:** Rhiain Morrlle, Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Plant sy’n Derbyn Gofal

**Teitl: Diweddariad ar y Taliadau Ariannol i'r Rheiny sy'n Gadael Gofal**

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gyda'r cynllun gweithredu a gynhwyswyd yn yr adroddiad Archwilio Mewnol ar Daliadau Ariannol i’r Rheiny sy’n Gadael Gofal a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am adroddiad cynnydd yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth 2015.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- Bod y Pwyllgor yn adolygu a rhoi sylwadau ar yr adroddiad cynnydd.
- Bod y Pwyllgor yn penderfynu a yw'n fodlon â'r cynnydd hyd yma.
- Bod y Pwyllgor yn penderfynu a oes angen unrhyw adroddiadau dilynol, gan bwy ac ar ba ddyddiad.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Roedd adroddiad Archwilio Mewnol ar Daliadau Ariannol i’r Rheiny sy’n Gadael Gofal a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014 yn cynnwys cynllun gweithredu gyda phedwar Mater Cymedrol ac 14 o gamau gweithredu i fynd i'r afael â nhw. Pan gyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yr adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 15 Ebrill 2014, mynegodd y Pwyllgor rai pryderon o ran bod y broses dalu bresennol yn anghynaladwy ac felly bu i’r Pwyllgor ofyn i Archwilio Mewnol gynnal adolygiad dilynol ac adrodd yn ôl iddynt.

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad dilynol ar 5 Tachwedd 2014 a 25 Mawrth 2015. Yn y cyfarfodydd hyn gwnaed rhywfaint o gynnydd yn erbyn y camau gweithredu ond yn y cyfarfod mwyaf diweddar roedd yna rai camau yn dal heb eu gweithredu, yn bennaf yn gysylltiedig â chyngor y gofynnwyd amdano gan y Gwasanaeth Caffael Cydweithredol.

Mae Atodiad 1 yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf, sydd bellach yn dangos bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau ar ôl cyngor a roddir gan y Gwasanaeth Caffael

Cydweithredol.  Mae'r gwasanaeth wedi gallu lleihau ei ddefnydd o daliadau arian parod i bobl ifanc y bu’n gweithio â nhw drwy eu statws gadael gofal neu eu statws 'Southwark' (pobl ifanc 16-18 oed sy'n ddigartref). Mae’r defnydd o docynnau bws wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol i gyflawni hyn a defnyddir gan adrannau eraill ar draws Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Amherthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig yw hwn

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Amherthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig yw hwn

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?  Dylai’r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi eu gwarchod.

**8. Pa ymgynghori a wnaed â’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Amherthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig yw hwn

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'n bwysig y glynir wrth y prosesau newydd er mwyn gallu parhau i gyfyngu ar y risgiau a amlygwyd yn yr adroddiad Archwilio Mewnol gwreiddiol. Bydd cadw at y broses newydd yn cael ei fonitro trwy oruchwylio a monitro gweithgarwch taliad.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Amherthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig yw hwn.